MEDDYGFA
Practis Meddygol Tŷ Mostyn
Mostyn House Medical Practice
SURGERY

MOSTYN BROADWAY
LLANDUDNO
LL30 1YL

Ffôn: 01492 860401
Ffacs: 01492 871479
Cyfeiriad gwefan:
www.mostynhousemedicalpractice.co.uk

Croeso i Bractis Meddygol Tŷ Meddygol. Rydym mewn lleoliad cyfleus yng nghanol Llandudno dros y ffordd o Barc Llandudno sef y Ganolfan Siopa newydd a bloc i ffwrdd o'r Pwll Nofio.

Mae **Ardal ein Practis** yn cynnwys Llandudno gyfan, Bae Penrhyn, Cyffordd Llandudno, Deganwy a Llanrhos. Rydym yn cofrestru cleifion o'r holl ardaloedd hyn. Mae'r map ar y dudalen olaf.

Dr. Mark Ferris
LRCP, MRCS. Ysbyty Guys, Llundain, 1976. Gwryw.
Diddordebau Arbennig mewn Gynaecoleg, Mamolaeth a Diabetes.

Dr. Desmond McCabe
MB, BCh, BAO, DCH, D.OBS, MRCGP, DFFP.
Coleg Prifysgol Dulyn, 1984. Gwryw.
Diddordeb Arbennig mewn Iechyd Plant.

Dr. Alison Harvey
MB, BCh. Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, 1987. Benyw.
Diddordebau Arbennig mewn Cynllunio Teuluol a Chlinig Merched Iach.

Dr. Ebbi Luithle
FRCS, MRCGP. Prifysgol Heidelberg, 1989. Gwryw.
Diddordeb Arbennig mewn Meddygaeth Chwaraeon.

Dr. Vincent McCann
MB, BCh, BAO, MRCGP, Coleg y Drindod Dulyn, 1991

Dr. Catrin Williams
Benyw
MB, BCh, RCGP, Siaradwr Cymraeg

ORIAU

Y Feddygfa	ar agor rhwng 8.30 am - 6.00 pm yn ystod yr wythnos waith.
Llinellau'r Ffôn	ar agor rhwng 8.30 am - 6.00 pm yn ystod yr wythnos waith.

Mae ein llinell frys ar agor o 8.00 am ac yn cau am 6.30 pm yn ystod yr wythnos.

Meddyg

Meddygfa'r Dydd	**Bore**	**Prynhawn**
Dydd Llun – Dydd Gwener	8.30 - 11.30am	3pm-5.30pm

Nyrs Practis

Meddygfa'r Dydd	**Bore**	**Prynhawn**
Dydd Llun – Dydd Gwener	**8.30am - 1.00am**	**2pm-5.30pm**

Pan ydym ar gau: Galwch GIG 111 os gwewlch yn dda. Mae'r rhif hwn yn rhad ac am ddim. Mae'r gwasaneth hwn yn cynnig arweiniad a gofal brys gan gynnwys gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau a chyngor iechyd. Mewn argyfwng galwch 999.

TÎM Y PRACTIS

Rydym yn dîm bach ac yn ymfalchïo mewn gweithio gyda'n gilydd, weithiau'n cyflenwi yn absenoldeb ein gilydd pan fydd angen er mwyn cynnal gwasanaeth o safon uchel i'n holl gleifion.

Y TÎM GOFAL IECHYD CYCHWYNNOL

Kate Kiddell yw ein **Rheolwr Practis** a hi sydd â chyfrifoldeb rheoli a gweinyddol cyffredinol dros y Practis.

Dyma ein **Derbynwyr** , Ysgrifenyddion a'n Staff Eraill**:- Marian, Sandra, Belinda, Iola, Dionne, Nicola, Susy, Gill, Jane, Kath and Beth.**

Maent yn fwy na pharod i ddelio â'ch holl alwadau ac ymholiadau dros y ffôn. **Mae croeso i chi ofyn am enw'r unigolyn rydych yn siarad ag ef**. Yn aml, mae'n fuddiol gwneud hynny os ydych yn bwriadu ffonio'n ôl yn ddiweddarach.

Practis hyfforddi yw hwn ac efallai y bydd meddyg dan hyfforddiant yn bresennol yn eich sesiwn ymgynghori.

TÎM CLINIGOL

Sam yw ein Ymarferydd Nyrsio a Jackie ac Iola yw nyrsys ein practis. Judy yw ein HCA. Maent yn hynod gymwysedig ac yn cydweithio'n agos â'r Meddygon.

STAFF SYDD YNGHLWM Â'R PRACTIS

Ein **Hymwelydd Iechyd** yw Rachel Caffery. Mae'n gweithio o'i hystafell ei hun yn y Feddygfa yn rhoi cyngor arbenigol a chefnogaeth i blant, pobl ag anfanteision a'r henoed. Bydd yn helpu i asesu datblygu ac iechyd cyffredinol eich plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar.

Caiff **Sesiynau Arolygu Iechyd Plant** a **Chlinigau Imiwneiddio Plant** eu cynnal yma bob **dydd Mawrth** o **2.00** pm hyd at **4.00**pm.

Karen Bellis yw **Bydwraig Ardal.** Mae'n helpu'r Practis i ddarparu'r holl agweddau ar Ofal Mamolaeth. Gallwch gysylltu â hi trwy siarad ag aelod o staff ar ddesg y dderbynfa. Mae'n cynnal **Clinigau Cyn-geni Rheolaidd yn y Practis** ar ddydd Llun am 12.00pm a dydd Mawrth am 9.30am. Ffoniwch i gael apwyntiad.

Gall ein Fferyllwyr, Gill neu Dianne, helpu i roi gwybodaeth am feddyginiaethau - gofynnwch i'r dderbynfa.

Nyrsys Ardal

Os ydych angen cysylltu â'r nyrsys ardal, cysylltwch â'r feddygfa am wybodaeth.

APWYNTIADAU

Meddyg

Gellir trefnu apwyntiadau rheolaidd tua 3-4 wythnos o flaen llaw. Gellir trefnu'r rhain drwy ffonio'r feddygfa, galw heibio'r feddygfa neu ar-lein drwy Fy Iechyd Ar Lein.

Mae apwyntiadau ar y diwrnod ar gael o 8.30am ymlaen. Gellir trefnu'r rhain drwy ffonio'r feddygfa neu alw heibio'r feddygfa.

Apwyntiadau Brys - os ydych angen cael eich gweld ar frys, cysylltwch â'r feddygfa ar y diwrnod.

Efallai bydd gofyn i chi ateb ambell gwestiwn am y rheswm yr ydych yn ffonio fel y gallwn eich cyfeirio at yr unigolyn cywir i'ch helpu.

Bydd pob plentyn, ieuengach na 16 mlwydd oed gyda symptomau llym yn cael cynnig ymgynghoriad ar yr un diwrnod (gall hyn fod dros y ffôn).

Mae apwyntiadau am 10 munud ac ar gyfer un unigolyn yn unig.

Gall cleifion sydd rhwng 16 a 74 mlwydd oed, sydd heb gael eu gweld ers tair blynedd wneud cais am ymgynghoriad a gall cleifion dros 76 mlwydd oed sydd wedi eu gweld yn y 12 mis diwethaf wneud cais am ymgynghoriad.

NYRSYS Y PRACTIS

Mae apwyntiadau wedi'u trefnu o flaen llaw ar gael gyda phob nyrs y practis hyd at 8 wythnos o flaen llaw a gallant helpu gyda'r canlynol: mân anhwylderau, diabetes, asthma/resbiradol, rhoi'r gorau i ysmygu, cynllunio teulu, imiwneiddiadau/cyngor teithio, tynnu cŵyr o glustiau, gorchuddiadau, tynnu o gymalau, swabiau gwain, gwiriadau coil, adolygiad atal cenhedlu, gwiriadau pwysedd gwaed, profion ceg y groth, cyngor ar ddeiet ac ymarfer corff, gwiriadau cleifion newydd.

FFLEBOTOMYDD

Mae Angela, ein Fflebotomydd, yn y feddygfa ar ddyddiau Mawrth, Mercher a Gwener rhwng 8.30am a 11.30am. Clinig galw heibio yw

hwn. Dylech ganiatáu 2 - 3 diwrnod er mwyn i'ch canlyniad ddod yn ôl. Ffoniwch ar ôl 2pm am eich canlyniadau.

YMWELIADAU CARTREF

Mae meddygon ar gael i drefnu ymweliadau â'r cartref. **Ond,** *cyn i chi ffonio,* dylech fod **fod yn sicr eich bod yn rhy sâl i allu cyrraedd y feddygfa er mwyn gweld Meddyg.**

Mae ymweliadau â'r cartref wedi'u bwriadu ar gyfer cleifion sy'n gaeth i'r tŷ neu sy'n rhy sâl i ddod i'r feddygfa. Ffoniwch cyn 10am os bydd angen ymweliad â'r cartref arnoch.

CLEIFION NEWYDD

Dylai unrhyw glaf sy'n dymuno cofrestru gyda'r feddygfa fyw yn ardal y dalgylch. Byddwch angen cwblhau holiadur cofrestru claf newydd a chwblhau ac arwyddo ffurflen GMS1w sy'n rhoi hawl i chi gael triniaeth GIG am ddim. Bydd angen eich rhif GIG arnoch. Hefyd, byddwn angen gweld prawf adnabod sy'n cadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad.

Gofynnir i'r holl gleifion newydd fynd i'r feddygfa i gael gwiriad fel claf newydd. Mae hyn yn cynnwys pwysau, taldra a gwiriadau pwysedd gwaed ac mae'n ein galluogi i gofnodi eich hanes meddygol wrth aros i'ch nodiadau gyrraedd gan eich meddyg blaenorol.

Dewch â manylion o unrhyw salwch, brechiadau a phrofion blaenorol ble mae angen. Dewch â sampl wrin i'w brofi. (Gallwn ddarparu potel sampl). Mae'r gwiriad iechyd yn cymryd tua 20 munud fel arfer.

AIL BRESGRIPSIYNAU

Caniatewch dau ddiwrnod gwaith i'ch cais presgripsiwn gael ei brosesu. Dylid postio'r ceisiadau drwy'r blwch llythyr pan mae'r feddygfa ar gau, eu postio neu eu rhoi yn y bocs presgripsiwn yn y fynedfa. Nid yw'n bosib cymryd cais am ail bresgripsiwn dros y ffôn. Gallwch hefyd archebu ail bresgripsiwn ar y we - siaradwch gydag aelod o staff i gael gwybod sut mae cofrestru.

Gallwch gasglu eich presgripsiwn o'r Feddygfa neu mae'r mwyafrif o fferyllfeydd yn yr ardal yn cynnig gwasanaeth casglu fel y gallwch gasglu eich presgripsiwn yn uniongyrchol ganddynt. (Rhowch wybod beth yw enw eich fferyllydd os ydych yn defnyddio fferyllydd).

Fel arall, gallwn bostio eich presgripsiwn i chi os ydych yn cynnwys amlen gyda chyfeiriad a stamp arni.

MÂN LAWDRINIAETH

Rydym yn cynnig ystod eang o driniaethau mân lawdriniaeth gan gynnwys trin dafadennau a thynnu tagiau croen, gan osgoi'r angen i gleifion drefnu apwyntiadau ysbyty. Gofynnwch wrth y Dderbynfa am fanylion.

PROFION CEG Y GROTH

Argymhellir y dylai'r holl ferched rhwng 24 a hanner a 65 oed gael prawf ceg y groth bob tair blynedd er mwyn atal Canser Ceg y Groth. Mae modd trefnu apwyntiad gyda'r nyrs practis.

GWASANAETHAU CYNLLUNIO TEULUOL

Rydym yn darparu ystod llawn o wasanaethau a chyngor atal cenhedlu, gan gynnwys dulliau atal cenhedlu trwy'r geg a phigiadau. Os bydd angen Dull Atal Cenhedlu brys arnoch, cysylltwch â'r feddygfa o fewn 72 awr er mwyn cael cyngor

GOFAL ASTHMA / RESBIRADOL A DIABETES

Mae'r cyflyrau hyn yn gofyn am wiriadau rheolaidd gan nyrs y practis er mwyn eich helpu i aros yn iach - gofynnwch wrth y dderbynfa.

CLEFYD Y GALON

Mae ein nyrsys practis yn helpu'r meddyg i drin cleifion â chlefyd coronaidd y galon a sut i leihau'r risgiau sydd ynghlwm wrth eu datblygu.

GWASANAETH RHOI'R GORAU I YSMYGU

Mae ein nyrsys yn gymwysedig i roi cyngor i gleifion sy'n awyddus i roi'r gorau i ysmygu.

IMIWNEIDDIO OEDOLION

Argymhellwn y dylai'r holl gleifion dros 65 oed a'r cleifion hynny sy'n dioddef o salwch cronig, fel clefyd yr ysgyfaint (bronchitis, asthma, emffysema ac ati), anhwylder sy'n effeithio ar y galon, clefyd yr arennau neu ddiabetes gael eu brechu er mwyn atal y ffliw bob hydref. Mae pob claf dros 65 mlwydd oed neu o dan 65 mlwydd oed ond mewn grŵp risg yn gymwys ar gyfer brechiad niwmonia. Mae pob claf rhwng 70 a 79 mlwydd oed yn gymwys ar gyfer brechiad yr eryr.

TEITHIO

Cyn teithio tramor, argymhellwn yn gryf y dylech ofyn am gyngor gan nyrs y practis am frechu priodol. A fyddech cystal â chynllunio'n dda ymlaen llaw fel bod bodd rhoi cwrs llawn eich triniaeth cyn i chi adael. Fe'ch cynghorwn i gysylltu â'r nyrs i wneud apwyntiad teithio o leiaf chwe wythnos cyn y mae'n amser i chi adael.

AROLYGU IECHYD PLANT

Mae'r Practis yn darparu gwasanaethau Arolygu Iechyd Plant ynghyd â'r Ymwelwyr Iechyd bob prynhawn dydd Mawrth yn ein Clinig Iechyd Plant. Os bydd gennych unrhyw ofidiau neu bryderon ynghylch datblygiad eich plentyn, dewch i'r clinig i weld y Meddyg neu'r Ymwelydd Iechyd.

GOFAL CYN-GENI / MAMOLAETH

Caiff ei ddarparu gan y meddyg yn ystod amseroedd arferol y feddygfa a chan y fydwraig. Mae'r fydwraig yn cynnal clinigau rheolaidd ar ddydd Llun a dydd Mawrth.

ARCHWILIADAU MEDDYGOL

Caiff archwiliadau meddygol at ddibenion arbennig, e.e. gyrrwr oedrannau, archwiliad meddygol i yrwyr cerbydau nwyddau trymion (HGV), Cyn Cyflogaeth, archwiliad meddygol am resymau yswiriant, Ffitrwydd i deithio ac ati, eu darparu trwy drefniant. Codir TÂL am y gwasanaeth hwn, felly gofynnwch i'r derbynnydd ymlaen llaw.

GOFAL DEINTYDDOL

Os bydd angen deintydd arnoch mewn achos brys, ffoniwch Linell Gymorth Deintyddol Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47.

MYNEDIAD AT GOFNODION MEDDYGOL

Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd, gall cleifion ofyn i weld eu cofnodion meddygol neu i gael copi ohonynt. Dylid rhoi ceisiadau mewn ysgrifen (gofynnwch yn y dderbynfa am ffurflen). Byddwn angen gweld prawf adnabod. Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn 30 diwrnod.

AWGRYMIADAU

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw awgrymiadau yn ymwneud â sut gallwn wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

CWYNION

Rydym yn gwneud pob ymdrech i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bawb sy'n dod i'n practis. Fodd bynnag, deallwn y gall pethau fynd o'u lle gan arwain at gleifion yn teimlo bod ganddynt sail ddilys i gwyno. Os felly yw hi, byddem ni am i'r mater gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl ac mewn ffordd sydd mor gyfeillgar â phosibl.

Er mwyn mynd â chwyn yn ei blaen, cysylltwch â rheolwr y practis a fydd yn delio â'ch pryderon yn briodol. Mae rhagor o wybodaeth ysgrifenedig ar gael am y weithdrefn gwyno o'r dderbynfa.

I gael copi o'n gweithdrefn gwynion, gofynnwch i aelod o staff.

Os bydd gennych broblem, gobeithiwn y byddwch yn defnyddio ein gweithdrefn gwyno. Rydym yn credu y bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i ni weithio i wella beth bynnag sydd wedi mynd o'i le ac yn gyfle i ni wella ein gwasanaeth.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar eich hawl i fynd at asiantaethau allanol. Os ydych yn teimlo na allwch godi cwyn gyda ni, neu os ydych yn anhapus gyda canlyniad ein hymchwiliad, efallai bydd y cyfeiriadau canlynol yn ddefnyddiol:

Y Tîm Pryderon
Ysbyty Gwynedd Hospital
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2PW
Ffôn: 01248 384194
E-bost: ConcernsTeam.bcu@wales.nhs.uk

Gallwch hefyd gysylltu â Cyngor Iechyd Cymuned, sy'n darparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol am ddim sy'n cynnig cefnogaeth, cyngor ac arweiniad cyfrinachol i'r rhai sy'n dymuno gwneud cwyn yn erbyn y GIG. Gellir cysylltu â nhw ar: 01248 679284

DIM GODDEFGARWCH

Mae'r practis hwn yn gweithredu polisi dim goddefgarwch o ran ymddygiad ymosodol a threisgar.

CYFRINACHEDD A CHOFNODION MEDDYGOL

Mae'r practis yn cydymffurfio â deddfwriaeth data a mynediad at Gofnodion Meddygol. Gellir rhannu gwybodaeth sy'n golygu bod modd eich adnabod gydag eraill yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Er mwyn rhoi triniaeth feddygol bellach i chi e.e. gan nyrsys ardal a gwasanaethau ysbyty.
- Eich helpu i gyrraedd gwasanaethau eraill e.e. gan yr adran gwaith cymdeithasol. Mae hyn yn gofyn am eich cydsyniad chi.

- Pan mae gennym ddyletswydd i eraill e.e mewn achosion diogelu plentyn caiff gwybodaeth ddienw am gleifion ei defnyddio hefyd ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn helpu'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Llywodraeth i gynllunio gwasanaethau e.e. ar gyfer gofal diabetig.

Os nad ydych am i wybodaeth ddienw amdanoch chi gael ei defnyddio fel hyn, rhowch wybod i ni.

Mae angen i staff derbynfa a staff gweinyddol edrych ar eich cofnodion meddygol er mwyn gwneud eu swyddi. Mae'r aelodau hyn o staff wedi'u rhwymo gan yr un rheolau tuag at gyfrinachedd ag y mae'r staff meddygol.

Gofynwch am gopi o'n Rhybudd Cyfrinachedd a Phrosesu Teg.

RHYDDID GWYBODAETH

Gall gwybodaeth am y meddygon teulu a'r practis sydd angen ei datgelu o dan y ddeddf hon fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r holl geisiadau o'r fath gael eu gwneud i reolwr y practis.

CYFLEUSTERAU AR GYFER YR ANABL

Mae gan y Feddygfa Fynediad Llawn i Gadeiriau Olwyn i mewn i'r Feddygfa a'r ardal o'i hamgylch, mae cadair olwyn i gleifion ei defnyddio ar gael yn y feddygfa. Mae toiled ar gael hefyd wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer cleifion anabl. Mae'r staff bob amser yn awyddus i helpu cleifion anabl i symud o amgylch y safleoedd a byddant yn helpu pryd bynnag y bydd angen; gofynnwch am gymorth os bydd angen.

Mae staff bellach yn trefnu apwyntiadau gyda WITS i unrhyw un y gallai fod angen dehonglydd arno, mae modd gwneud hyn trwy'r ffôn neu ewch i http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/43133

Cyfrifoldebau'r Meddyg / Claf

CYFRIFOLDEBAU EICH MEDDYG

- Eich trin gyda chwrteisi a pharch bob amser
- Eich trin fel unigolyn a thrafod y gofal a'r driniaeth y gallwn eu darparu.
- Rhoi gwybodaeth gyflawn i chi am y gwasanaethau a gynigiwn.
- Sicrhau bod staff â chymwysterau addas yn rhoi'r gofal mwyaf priodol i chi.
- Darparu gofal brys ar eich cyfer pan fydd ei angen arnoch.
- Eich cyfeirio at feddyg ymgynghorol sy'n dderbyniol gennych pan fydd gennych.
- Rhoi mynediad at eich cofnodion iechyd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y gyfraith.
- Rhoi cyfrinachedd a phreifatrwydd llwyr i chi.

EICH CYFRIFOLDEBAU FEL CLAF

- Trin holl aelodau staff Practis Meddygol Tŷ Mostyn gyda pharch a chwrteisi bob amser. Yn unol â gweddill y GIG, mae'r practis hwn yn gweithredu polisi "dim goddefgarwch" o ran amddiffyn ei holl staff. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw un sy'n dreisgar neu'n ymosodol mewn unrhyw ffordd tuag at unrhyw aelod o staff yn destun system rhybudd goleuadau traffig. Bydd hyn yn gweithio fel a ganlyn:

    - Digwyddiad cychwynnol - gwyrdd - rhybudd cyntaf - ymddygiad annerbyniol
    - Ail ddigwyddiad - melyngoch - 2il rybudd a'r un olaf - cyfle olaf
    - Trydydd digwyddiad - coch - tynnu enw oddi ar y gofrestr a gofyniad i ailgofrestru â phractis arall

Bydd achosion eithafol yn arwain at roi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad. Mae hyn yn berthnasol i bob claf a phob aelod o staff, nid dim ond y Meddygon ac mae'n cynnwys cyswllt dros y ffôn.

- Dweud wrthym os ydych yn ansicr ynghylch y driniaeth rydym yn ei chynnig i chi.
- Gofyn am ymweliad â'r cartref dim ond pan na fydd y claf yn gallu dod i'r feddygfa oherwydd salwch neu eiddilwch.
- Gofyn am ymweliad o'r fath os yw'n bosibl cyn 10.00am.
- Cadw at eich apwyntiadau a chysylltu â'r practis ymlaen llaw os na allwch gyrraedd mewn pryd fel bod modd ei gynnig i rywun arall.
- Bod yn brydlon ar gyfer apwyntiadau a threfnu apwyntiad ar wahân ar gyfer pob aelod o'r teulu sy'n awyddus i weld y meddyg.
- Cymryd meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddiadau a gofyn am bresgripsiwn amroddadwy dim ond os oes un angen arnoch.

- Rhoi gwybod i ni pan fyddwch yn newid eich cyfeiriad neu'ch rhif ffôn.

- Gofynnwn am eich amynedd pan fydd y meddyg ar ei hôl hi am ba reswm bynnag.

Cyfeiriadau Gwe a Rhifau Ffôn Defnyddiol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/hafan	01248 682682
Ysbyty Llandudno	01492 860066
Ysbyty Glan Clwyd	01745 583910
Ysbyty Gwynedd	01248 384384
Y Tu Allan i Oriau	0300 123 5566
Galw Iechyd Cymru https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/	0845 4647

ARDAL Y DALGYLCH

SAFONAU MYNEDIAD 2019

Cyhoeddwyd safonau newydd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2019 a'u nod oedd codi a gwella lefel y gwasanaeth ar gyfer cleifion yng Nghymru yn eu meddygfeydd.

Mae pobl yn cael ymateb prydlon i'w cyswllt â'u meddygfa dros y ffôn.

Mae gan feddygfeydd systemau teleffoni priodol yn eu lle i gefnogi anghenion pobl gan osgoi'r angen i ffonio'n ôl nifer o weithiau ac yn gwirio eu bod yn delio â galwadau yn y ffordd yma.

Mae pobl yn cael gwybodaeth ddwyieithog ar wasanaethau brys a lleol wrth gysylltu â'r feddygfa.

Mae pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth ar sut i gael help a chyngor.

Mae pobl yn cael y gofal cywir ar yr amser cywir mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n seiliedig ar eu hangen.

Gall pobl ddefnyddio ystod o opsiynau i gysylltu â'r feddygfa a gwneud apwyntiadau.

Mae pobl yn gallu e-bostio meddygfa i ofyn am ymgynghoriad lle nad oes brys neu alwad yn ôl.

Mae meddygfeydd yn deall anghenion y bobl o fewn eu meddygfa ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ragweld galw am eu gwasanaethau.